

**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD**  
**(CLIRFFORDD, GWAHARDDIAD AROS A MANNAU PARCIO)**  
**(Y MAES, Y BONT BRIDD A FFORDD PEN DEITCH CAERNARFON) 2013**

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") trwy ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 19, 32, 35, 47 ac 124 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984, fel y newidiwyd a Deddf Rheolaeth Trafnidiaeth 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r ddeddf drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**RHAN I: ENWI A DEHONGLI**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar yr 12fed ddydd o Ebrill 2013 a gellir cyfeirio ato fel "Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Clirffordd, Gwaharddiad Aros a Mannau Parcio) (Y Maes, Y Bont Bridd a Ffordd Pen Deitch Caernarfon) 2013".
2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn golygu rhywbeth gwahanol, mae gan yr ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt yma: mae gan "*Ambiwlans*" yr un ystyr a'r hyn sy yn y Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994; mae ystyr "*Bws*" yr un fath a'r hyn sydd yn Rheoliad 22 o Reoliadau 2002; mae ystyr "*Bws*" unrhyw ran o'r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei golyga "*Arosfa Bws*" unrhyw ran o'r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei chynnwys ac wedi ei dangos gan farciau ar y ffordd ac arwydd sydd yn cydymffurfio gyda diagram 969 yn Atodlen 5 i Reoliadau 2002; mae "*Cerbydlon*" yn golygu ffordd sy'n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau, beiciau a cherddwyr deithio; mae gan "*Swyddog Gorfodi Sifil*" yr un ystyron ac sydd yn cael ei ddiffinio yn Adran 76 o Ddeddf 2004 mae i "*Cerbyd Person Anabl*" yr un ystyron ac yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000; mae "*Bathodyn Person Anabl*" a "*Disg Parcio*" yn golygu'r bathodyn a'r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 neu yn fathodyn sy'n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai'n Fathodyn

Person Anabl;

golyga "*Gyrrwr*", mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu'r ffordd neu ran o'r ffordd;

mae "*Deddfiad*" yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol;

mae "*Nwyddau*" yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath;

mae "*Cerbyd Nwyddau*" yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o led;

mae "*Cerbyd Hacni*" yn golygu cerbyd a drwyddedwyd o dan Adran 38 o'r Ddeddf Cerbydau (Ecséis), 1971;

mae gan "*Dyfais Rhwystro Symud*" yr un ystyron ac yn Adran 104(9) o'r Ddeddf 1984;

golyga "*Marchnad*" y farchnad sydd yn cael ei chynnal ar Safle'r Farchnad ar y dyddiau hynny sydd yn cael eu hystyried yn ddyddiau'r Farchnad gan y Cyngor. Golyga "*Safle'r Farchnad*" y rhannau hynny o'r Maes, fel y dangosir ar y Cynllun, lle cynhelir y Farchnad.

Mae gan "*Feic Modur*" a "*Cerbyd yr Anabl*" yr un ystyron ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae gan "*Cerbyd Modur*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

golyga "*Perchennog*", mewn perthynas â'r cerbyd yr unigolyn sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai'r Perchennog yw'r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994;

mae "*Man Parcio*" yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir gan driniaeth

arwyneb ac arwyddion (neu fel y disgrifir fel arall yn y Gorchymyn hwn) yn unol â Rheoliadau 2002;

mae “*Tâl Cosb*” yn golygu tâl yn unol ag Erthygl 34 o’r Gorchymyn hwn fel y newidiwyd o bryd i’w gilydd mewn cydymffurfiaid gyda darpariaethau Adran 78 o Ddeddf 2004 a Chanllawiau 2008;

golyga “*Rhybudd Tâl Cosb*” neu “*RhTC*” rybudd a rhoddwyd neu a gyflwynwyd gan Swyddog Gorfodaeth Sifil yn unol â darpariaethau Adran 78 o’r Ddeddf 2004;

mae “*Cynllun*” yn golygu’r cynlluniau sy’n atodol i’r Gorchymyn hwn sef rhai sydd wedi eu rhifo BY50, BX50 a BX49.;

mae “*Safle Perthnasol*” o safbwyt: -

- (a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu
  - (ii) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod Rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd; neu
  - (iii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod Rhan 1 o’r bathodyn yn glir o du allan i’r cerbyd;
- (b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy’n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i’w weld yn glir o du allan i’r cerbyd;

Mae “*Rheng Dacsi*” yn golygu ardal sydd wedi ei dynodi gan driniaeth arwyneb ac arwyddion sy’n cydymffurfio gyda diagram 650.1 yn Atodlen 2 o Reoliadau 2002;

mae gan “*System Telathrebu*” yr un ystyr a’r hyn sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

mae “*Rheoliadau 2002*” yn golygu Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002;

mae “*Canllawiau 2008*” yn golygu’r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008;

mae “*Deddf 1984*” yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffurdd 1984;

mae “*Deddf 2004*” yn golygu Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004

mae “*Arwydd Traffig*” yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu a’r effaith fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen risedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sydd a’r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
4. Bydd Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o’r fath gan y gall eu bod wedi, neu y byddant o bryd i’w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.
5. Bydd y gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol i a ddim yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchmyntion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.
6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli’r Gorchymyn hwn fel mae’n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o’r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, a phe byddai’r Orchmyntion a ddiddymwyd gan Erthygl 36 hyd 39 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.

#### **RHAN II:DIM STOPIO (CLIRFFORDD)**

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8, ac 9 o’r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwash yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i stopio ar y darnau ffordd a nodir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn, ac sydd wedi ei ddangos mewn hatch lliw ar y Cynllun.
8. Ni fydd dim yn Erthygl 7:
  - a. yn gwahardd unrhyw gerbyd i aros cyn belled a bo hi’n angenrheidiol gallu defnyddio’r cerbyd mewn cysylltiad ag:
    - (i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
    - (ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
    - (iii) cynnal a chadw, gwella neu adluniad unrhyw ddarnau neu ochrau darnau ffordd; a gosod, codi, cynnal a chadw, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau

- ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpas telathrebu fel y diffinnir yn Nedd Cyfathrebu 2003;
- b. i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y Frigâd Dân, Ambiwlans neu'r Heddlu;
  - c. fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymmerwr dŵr, ymgymmerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
  - ch. fel y gellir defnyddio cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y diffinnir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddosbarthu a/neu gasglu'r post;
  - d. mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
    - (i) angen yn ôl y gyfraith i stopio;
    - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
    - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
  - dd i ddibenion llwytho neu ddadlwytho'r cerbyd tra mewn perthynas â dosbarthu neu symud dodrefn i neu o unrhyw adeilad sydd yn wynebu'r rhannau dywedig o'r ffordd honno AR YR AMOD bod rhybudd yn cael ei roi 24 awr ymlaen llaw i'r awdurdod lleol gan dderbyn eu caniatâd;
9. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn neu ger y Safle Marchnad ac fel a ddangosir ar y Cynllun, mewn cysylltiad gyda'r Farchnad, tra pery'r angen i osod neu ddaduno'r stondinau at bwrpas y Farchnad neu i lwytho neu ddadlwytho nwyddau i unrhyw stondin marchnad a godwyd ar Safle'r Farchnad AR YR AMOD nad oes unrhyw gerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl yma yn aros amdanynt hwy na 2 awr y tu allan i'r un stondin farchnad heb ganiatâd heddwlas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil a bod heddwlas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu gofyn ar unrhyw amser i yrrwr y cerbyd i'w symud os yw'n rhesymol angenrheidiol i'r pwrrpas o osgoi rhwystr.

### RHAN III:SAFLE PARCIO I BERSOAU ANABL

- 10 (1) Defnyddir y rhannau o'r ffordd a bennir yn Atodlen 2 ac sydd wedi ei nodi yn y Cynllun a'i dynodi "Dalwyr Bathodyn Anabl yn Unig" yn amodol ar ddarpariaeth ganlynol y Gorchymyn hwn, fel mannau Parcio i gerbydau bersonau anabl mewn safleoedd, ac ar y fath ddiwrnodau ac yn ystod y fath oriau sydd wedi eu dynodi mewn perthynas â'r ardal yn yr Atodlen a enwyd ac sydd wedi ei nodi ar y Cynllun. Ni chaniateir i unrhyw berson beri neu achosi i unrhyw gerbyd ac eithrio'r category uchod i stopio (gan gynnwys gwaharddiad i lwytho a dadlwytho) oddi mewn i'r ardal y ffordd o fewn Atodlen 2.
- (2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl yma yn cyfyngu ar bŵer y Cyngor, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu ble fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau'r Man Parcio.
- 11 Ble fo yng nghyffiniau'r Man Parcio, arwydd sydd yn dynodi bod y man parcio ar gyfer Cerbyd Personau Anabl yn unig, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo fynd mewn nac aros yn y Man Parcio oni bai bod y cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol, Fathodyn Personau Anabl dilys a bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan y person y rhoddwyd y bathodyn iddo/iddi .
- 12 Ni ddylai gyrrwr y cerbyd ddefnyddio'r Man Parcio:
- gan rwystro yn afresymol fynediad i unrhyw ffordd gyfagos, neu ddefnydd y ffordd gan bersonau eraill, neu i fod yn niwsans;
  - er mwyn arbed rhwystr ar y strydoedd bydd y Cyngor yn gwneud gorchymyn ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu ble fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau'r Man Parcio ac wedi arddangos hysbyseb ar neu ger y Man Parcio i ddangos ei fod wedi cau.
- 13 Bydd Gyrrwr Cerbyd Modur sy'n defnyddio Man Parcio yn diffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn ei le yn y man parcio, a ni fydd yn tanio'r peiriant ac eithrio i symud y cerbyd neu i adael y Man Parcio.
14. Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd, tra bydd mewn Man Parcio, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio ei arbenigedd neu wasanaethau.
15. (1) Yn ddarostyngedig i'r profiso sydd yma, pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Parcio yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 10,11,12,13 neu 14 o'r Gorchymyn hwn bydd person a awdurdodir ar ran y

Cyngor neu heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio **AR YR AMOD** pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 12(b) o'r Gorchymyn hwn, gall person a awdurdodir ar ran y Cyngor neu heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.

(2) Ble mae hi'n ymddangos i'r Cyngor neu heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil bod cerbyd wedi ei adael yn y Man Parcio bydd person awdurdodedig ar ran y Cyngor neu heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu mewn modd y byddant yn ei ystyried yn angenrheidiol i bwrpas symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio AR YR AMOD ble fo'r Cyngor neu heddwas yn ei wisg, neu Swyddog Gorfodi Sifil yn bwriadu symud y cerbyd sydd ym marn y Cyngor neu Brif Swyddog yr Heddlu yn y fath gyflwr fel y dylid ei ddinistrio yna byddant ddim llai na saith niwrnod cyn ei symud yn gosod rhybudd ar y cerbyd yn datgan eu bod yn bwriadu ei symud er mwyn ei ddinistrio ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

- 16 Pan fo person awdurdodedig ar ran y Cyngor neu heddwas yn ei wisg, neu Swyddog Cymorth Cymunedol yn symud neu yn gwneud trefniadau i symud y cerbyd ymaith o'r Man Parcio o dan awdurdod Erthygl 15 yna ac eithrio achos o gerbyd sydd yn nhyb y Cyngor neu Brif Swyddog yr Heddlu yn y fath gyflwr y dylid ei ddinistrio dylid gwneud trefniadau fel y tybiant sy'n angenrheidiol er sicrhau gwarchodaeth ofalus o'r cerbyd.

#### RHAN IV:DIM AROS AR UNRHYW AMSER AC EITHRIO I GERBYDAU

##### HACNI

- 17 Ni chaniateir i unrhyw berson beri neu achosi i unrhyw gerbyd ac eithrio Cerbydau Hacni i aros oddi mewn i ardal y ffordd sydd wedi ei nodi yn Atodiad 3 i'r Gorchymyn hwn ac ar y Cynllun ac fel y nodir gan y platiaw arwydd yn Niagram 650.1 o Atodiad 2 o'r Rheoliadau.
- 18 Mae uchafswm nifer y Cerbydau Hacni a ganiateir i aros yn ardaloedd y ffordd a nodir yn Atodiad 3 fel y pennwyd mewn perthynas â'r Atodiad a enwyd.
- 19 Ni fydd dim yn Erthygl 17 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd unrhyw berson

rhag achosi neu ganiatáu unrhyw gerbyd i aros ar y darnau o'r ffordd a bennir cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i:-

- 19.1 Alluogi unigolyn i fynd mewn i gerbyd neu ddod allan ohono
- 19.2 Alluogi defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw briodas angladd gwaith adeiladu neu ddymchwel cael gwared ag unrhyw rwystr ar y darnau o'r ffordd a nodir neu osod, codi, newid neu atgyweirio ar neu yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw brif bibell, neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel y diffinnir yn Adran 4(3) Neddf Telathrebu 1984;
- 19.3 Alluogi cerbyd i ddisgwyl ar y darnau o'r ffordd os yw'r cerbyd yn arddangos lifrai a ddefnyddir gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn ystod casglu a/neu ddosbarthu llythyrau yn unol â dyletswyddau statudol er cyflawni gwasanaeth trawsgludo llythyrau
- 19.4 Alluogi defnyddio cerbyd ar y rhannau o'r ffordd a nodir at ddibenion yr heddlu ambiwlans brigâd dân llywodraeth leol carthffosiaeth neu ymgymmerwyr dŵr wrth ddilyn eu pwerau statudol neu ddyletswyddau
- 19.5 Os yw'r cerbyd yn disgwyl oherwydd bod y gyrrwr yn cael ei rwystro rhag symud oherwydd amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth neu os yw'r disgwyl yn angenrheidiol er mwyn atal damwain
- 19.6 I ddibenion llwytho neu ddadlwytho'r cerbyd tra ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â dosbarthu neu symud dodrefn i neu o unrhyw adeilad sydd yn wynebu rhannau o'r ffordd honno AR YR AMOD bod rhybudd yn cael ei roi 24 awr ymlaen llaw i'r awdurdod lleol gan dderbyn eu caniatâd.

#### RHAN V:DIM STOPIO AR UNRHYW ADEG AC EITHRIO I FYSIAU

- 20 (1) Gellir defnyddio'r ardaloedd o'r ffordd a bennwyd yn Atodiad 4 a nodir yn y Cynllun sydd wedi eu dynodi yn Arhosfa Bws, yn amodol ar y darpariaethau canlynol yn y Gorchymyn hwn, fel mannau Parcio i Fysiau. Yn y safleoedd hyn ac yn ystod y diwrnodau a'r oriau o'r fath ac am uchafswm arhosiad hiraf fel y pennwyd mewn perthynas â'r ardal honno yn yr Atodlen ddyweddedig. Felly ni chaniateir i unrhyw berson i stopio mewn unrhyw gerbyd ar y lleiniau o ffyrdd fel a sonir uchod , oni bai bod y cerbyd

yn fws. (2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn rhwystro pŵer y Cyngor, i atal rhwystr ar y strydoedd, er mwyn ar adeg unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu pan fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau'r man parcio.

- 21 Ni fydd gyrwyr bws yn gallu defnyddio'r arhosfa bws:
- (a) fel eu bod yn rhwystro yn afresymol mynediad i unrhyw ffordd gyfagos, neu ddefnydd ffordd gan bersonau eraill, neu fel eu bod yn niwsans;
  - (b) er mwyn atal rhwystr yn y strydoedd bydd y Cyngor drwy orchymyn a wnaed ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu ble fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, wedi cau'r Man Parcio ac wedi arddangos hysbyseb ei fod wedi cau ar neu ger y Man Parcio.

#### RHAN V1: GWAHARDDIAD AROS

22. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 23 a 24 o'r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwlas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y darnau ffordd a nodir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn, ac ar y Cynllun.
23. Ni fydd dim yn Erthygl 22 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y darnau ffordd a nodwyd yn Erthygl 5 oni bai ei bod hi'n angenrheidiol:
- 23.1 i unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oħono:
  - 23.2 fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
    - (i) unrhyw briodas neu angladd;
    - (ii) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
    - (iii) cael gwared ag unrhyw rwystri drafnidiaeth;
    - (iv) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
    - (v) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell,

- pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel y diffinnir yn Nedd Telathrebu 1984;
- 23.3      fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymmerwr dŵr, ymgymmerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
- 23.4      fel y gellir defnyddio cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y diffinnir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddosbarthu a/neu gasglu'r post;
- 23.5      i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y Frigâd Dân, Ambiwlans neu'r Heddlu;
- 23.6      mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
- (i)      angen yn ôl y gyfraith i stopio;
  - (ii)     yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
  - (iii)    ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
- 23.7 i ddibenion llwytho neu ddadlwytho'r cerbyd tra mewn perthynas â dosbarthu neu symud dodrefn i neu o unrhyw adeilad sydd yn wynebu'r rhannau dywededig o'r ffordd honno AR YR AMOD bod rhybudd yn cael ei roi 24 awr ymlaen llaw i'r awdurdod lleol gan dderbyn eu caniatâd;
24. Ni fydd dim yn Erthygl 22 o'r Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ddarnau o'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i drosglwyddo neu gasglu o neu lwytho neu ddadlwytho nwyddau yn unrhyw adeilad sy'n wynebu'r darn ffordd a nodir AR YR AMOD nad yw'r cerbyd yn aros am gyfnod hwy na 30 munud y tu allan i'r un un adeilad heb ganiatâd heddwlas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil a bod heddwlas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu gofyn ar unrhyw amser i yrrwr y cerbyd i'w symud os yw'n rhesymol angenrheidiol i'r pwrrpas o osgoi rhwystri.
25. Ni fydd dim yn Erthygl 22 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd aros am gyfnod heb fod yn fwy na 3 awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl neu lai nag awr oddi wrth gyfnod blaenorol gan

yr un cerbyd ar yr un ffordd neu ran o'r un ffordd ar yr un diwrnod) yn y darnau ffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a gyflwynwyd gan unrhyw lywodraeth leol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynna ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000

## **RHAN VII:MANNAU PARCIO AR GYFER LLWYTHO A DADLWYTHO NWYDDAU**

- 26 (1) Awdurdodir defnyddio'r rhan o'r ffordd a bennir yn Atodlen 6 ac sydd wedi ei nodi yn y Cynllun yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn fel Mannau Llwytho a Dadlwytho i'r dosbarthiadau hynny o gerbydau, mewn safleoedd o'r fath ac ar y dyddiau hynny ac yn ystod yr oriau a nodwyd mewn perthynas â'r Atodlen 6 ac sydd wedi ei nodi ar y Cynllun.
- (2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngordrwy Swyddog Gorfodi Suful neu gwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu le fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau unrhyw Fan Llwytho.
27. Oddieithr fel y darparwyd yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn mae Man Llwytho yn cael ei ddisgrifio fel bod ar gael i gerbydau o ddosbarth penodol neu mewn Safle Penodol, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y Man Parcio hwnnw -
- 27.1 oni bai ei fod o ddosbarth penodol; neu
- 27.2 mewn lleoliad arall i'r hyn a nodwyd.
28. Bydd pob cerbyd sydd yn defnyddio'r Man Llwytho yn achosi'r cerbyd i sefyll o fewn cyfyngiadau'r man llwytho fel y pennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.
29. Ni chaniateir gyrrwr y cerbyd i aros yn y Man Llwytho yn hwy nag sydd yn angenrheidiol i bwrrpas llwytho neu ddadlwytho nwyddau yn unig.

30. Ni fydd Gyrrwr cerbyd yn defnyddio'r Man Llwytho:-

- (a) fel ag yn afresymol i atal mynediad i unrhyw eiddo sydd gêr y ffordd, neu ddefnydd y ffordd gan unrhyw berson arall, neu fel ag i fod yn niwsans;
- (b) wrth atal rhwystro'r strydoedd bydd y Cyngor drwy Orchymyn a wnaed ar achlysur unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoedd neu oleuadau, neu le fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro yn cau'r Man Llwytho gan arddangos hysbysiad o'r cau ar neu ger y Man Llwytho.

31. (1) Yn ddarostyngedig i'r profiso sydd yma, pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Llwytho yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 26 hyd 30 o'r Gorchymyn hwn bydd heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio **AR YR AMOD** pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 30(b) o'r Gorchymyn hwn, gall heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.

(2) Ble mae hi'n ymddangos i heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil bod cerbyd wedi ei adael yn y Man Llwytho bydd heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu mewn modd y byddant yn ei ystyried yn angenrheidiol i bwrvpas symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Llwytho AR YR AMOD ble fo'r heddwas yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil yn bwriadu symud y cerbyd sydd ym marn y Cyngor neu Brif Swyddog yr Heddlu yn y fath gyflwr fel y dylid ei ddinistrio yna byddant ddim llai na saith niwrnod cyn ei symud yn gosod rhybudd ar y cerbyd yn datgan eu bod yn bwriadu ei symud er mwyn ei ddinistrio ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

32. Ni fydd dim yn Erthygl 26 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu unrhyw gerbyd i aros ar y darnau o'r ffordd a bennir cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i:-

32.1 Alluogi unigolyn i fynd mewn i gerbyd neu ddod allan ohono

32.2 Alluogi defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw briodas angladd gwaith

adeiladu neu ddymchwel cael gwared ag unrhyw rwystro ar y darnau o'r ffordd a nodir neu osod, codi, newid neu atgyweirio ar neu yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw brif bibell, neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel y diffinnir yn Adran 4(3) Neddf Telathrebu 1984;

32.3 Alluogi cerbyd i ddisgwyl ar y darnau o'r ffordd os yw'r cerbyd yn arddangos lifrai a ddefnyddir gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn ystod casglu a/neu ddosbarthu llythyrau yn unol â dyletswyddau statudol er cyflawni gwasanaeth trawsgludo llythyrau

32.4 Alluogi defnyddio cerbyd ar y rhannau o'r ffordd a nodir i ddibenion yr heddlu ambiwlans brigâd dân llywodraeth leol carthffosiaeth neu ymgymmerwyr dŵr wrth ddilyn eu pwerau statudol neu ddyletswyddau

32.5 Os yw'r cerbyd yn disgwyl oherwydd bod y gyrrwr yn cael ei rwystro rhag symud oherwydd amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth neu os yw'r disgwyl yn angenrheidiol er mwyn atal damwain

33. Ni fydd dim yn Erthygl 26 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu i ganiatáu Cerbyd Hacni i aros ar y rhan ffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

#### RHAN V11I:MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

34. (1) Os caiff cerbyd ei adael ar unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy a/neu gellir symud y cerbyd o'r lleoliad hwnnw.

(2) Yn achos cerbyd lle mae Tâl Cosb yn daladwy, bydd Rhybudd Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf 2004 .

(3) Yn achos cerbyd sydd wedi cael Tâl Cosb, dyletswydd y Swyddog Gorfodi Sifil fydd gosod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd, a bydd yn rhybudd sy'n cynnwys y manylion a ganlyn:

- (a) y rhesymau pam fod y Swyddog Gorfodi Sifil yn credu bod y Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;
- (b) swm y Tâl Cosb sydd yn daladwy;
- (c) bod rhaid talu'r Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd;

- (ch) os bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu cyn pen diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd, bydd swm y Tâl Cosb yn gostwng yn ôl yr hyn a nodir
- (d) os na thelir y Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod, bydd yn bosibl cyflwyno Rhybudd i'r Perchenog gan yr Awdurdod Lleol i'r person yr ymddengys sydd berchen y cerbyd; a'r
- (dd) cyfeiriad lle dylid talu neu anfon tâl y Tâl Cosb.
- (4) Nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb y bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu ddim hwyrach na 4.30 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb ond os bydd y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd yr adran dan sylw ar gau, bydd y cyfnod talu'r Tâl Cosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 4.30 p.m. y diwrnod llawn nesaf pan fydd yr adran dan sylw ar agor.
- (5) Os na thelir y Tâl Cosb o fewn 28 diwrnod o'r Rhybudd i'r Perchenog bydd yn bosibl codi'r tâl 50% drwy gyflwyno Tystysgrif Tâl.
- (6) Gall parhau i beidio â thalu arwain at ddyfarniad yn y llys Sirol yn erbyn y Perchenog, i alluogi'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.
- (7) Ni fydd gan unrhyw un heblaw gydag awdurdod y Perchenog neu'r unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd, neu'r Cyngor, neu o dan eu hawdurdod, hawl i dynnu'r Rhybudd Tâl Cosb sydd wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon.
- (8) Os bydd cerbyd yn cael ei adael ar ôl cael Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil yn ei wisg neu unigolyn sydd yn gweithio yn ôl ei gyfarwyddyd osod dyfais rhwystro symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 79 o'r Ddeddf 2004 a dylid ond rhyddhau'r cerbyd o'r ddyfais ar ôl derbyn y Tâl Cosb, neu yn ôl fel y digwydd, tâl cosb ostyngol, ynghyd â ffi rhyddhau o'r fath ag y gall fod y Cyngor ei angen.
- (9) Pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil wedi symud cerbyd neu beri iddo gael ei symud yn unol â pharagraff (1) yr Erthygl hon:
- (a) bydd ef/hi yn gofalu bod y cerbyd yn cael ei gadw yn ddiogel;
- (b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill unrhyw gostau gan y person sydd yn gyfrifol am y fath gostau o ran symud, cadw neu gael gwared â'r cerbyd fel y pennir ganddo o bryd i'w gilydd;

- (c) bydd darpariaethau Deddf 1984 yn berthnasol i gael gwared â cherbyd o'r fath a symudir gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

#### RHAN 1X:DILYSRWYDD

35. Os bydd llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol neu'r Tribiwnlys Cosb Traffic yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn hwn neu'r Gorchmynion.

#### RHAN X: DILEU GORCHMYNION BLAENOROL

36. Newidir y Gorchymyn hwn Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad Aros a Chyfyngu Symudiadau) (Y Maes Caernarfon) 2008 i'r graddau bod ei ddarpariaethau sy'n ymwneud ag aros yn cael eu dileu, ond bod y darpariaethau ynglŷn â symudiadau traffic yn parhau mewn grym.

37 Dilëir y Gorchymyn hwn Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Gwasanaethu'r Maes, Caernarfon) (Rheolaeth Traffig) 1980.

38. Fe fydd Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Stryd Llyn a Strydoedd Eraill) (Gwaharddiad Gyrru) 1990 yn cael ei ddarllen fel pe byddai'r geiriau yn yr Atodlen ,sy'n ymwneud ag Erthyglau Rhif 3 a 4 , yn cael eu diddymu. Dyma'r geiriau perthnasol:

“Y Maes - y rhan triongl o'i gornel Gogledd Dwyreiniol sydd wedi ei ffurfio rhwng y pwyntiau canlynol:- (1) ei chyffordd gyda Stryd Llyn; (2) yr ochr ddwyreiniol o'i chyffordd gyda Stryd Bont Bridd; (3) yr ochr ogleddol o'i chyffordd gyda Stryd Tre'r Gof”. Ym mhob agwedd arall bydd y gorchymyn dyweddedig yn parhau mewn grym.

39. Dilëir Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) Gorchymyn Cydgrynhau 2007 cyn belled â'i fod yn berthnasol

i'r ffyrdd sydd yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn hwn, ac yn benodol bod y Cynlluniau, BY50,BX50 a BX49 yn newid gorchymyn 2007. Ym mhob agwedd arall bydd Gorchymyn 2007 yn parhau mewn grym.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y ~~9fed~~<sup>dydd</sup> o Ebrill 2013.

#### ATODLEN 1:CLIRFFORDD:DIM STOPIO

Enw'r Ffordd	Rhan yr effeithir
Y Maes	Y cyfan sydd wedi cael ei farcio ar BX 50 gyda hatch lliw.

#### ATODLEN 2:SAFLE PARCIO I BERSONAU ANABL

Enw'r Ffordd	Safle y caniateir i gerbydau bersonau anabl aros	Dyddiau gweithredu	Cyfnod hwyaf y gellir parcio	Egwyl cyn y gellir dychwelyd
Y Maes – yr ochr ddwyreiniol rhwng llinell ochr y pafin estynedig deheuol yn Stryd Tre'r Gof, llinell ochr y pafin estynedig gogleddol yn Stryd Rhes Segontium ar hyd aliniad 8 metr i'r dwyrain o ffasâd yr adeilad	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob dydd	90 munud	90 munud
Y Maes – yr ochr ddeheuol, o bwynt 14 metr i'r gogledd orllewin o linell ymyl y pafin estynedig gogleddol o Stryd y Bont Bridd a 5 metr i'r gogledd ddwyrain o rif 35	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob dydd	90 munud	90 munud
Y Maes – o'r ffin rhwng adeiladau rhif 15 ac 16 Y Maes am bellter o 11 medr	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob dydd	90 munud	90 munud

**ATODLEN 3:DIM AROS AR UNRHYW ADEG AC EITHRI O I GERBYDAU  
HACNI**

Rhan o'r ffordd	Uchafswm y nifer o Gerbydau Hacni sydd yn cael aros ar y rhan o'r ffordd	Safle lle caniateir i'r Cerbydau Hacni aros	Dyddiau gweithredu	Oriau gweithredu
Y Maes - yr ochr ddeheuol o bwynt 2 metr i'r gogledd orllewin o dalcen dwyreiniol estynedig 29 y Maes am bellter o 31 metr i gyfeiriad gogledd gorllewinol ar hyd aliniad 13 metr i'r gogledd o adeiladau rhifau 29-33 Y Maes	5	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob diwrnod	24 awr
Y Bont Bridd Caernarfon	2	Y tu allan i rif 16 Y Bont Bridd am bellter o 12 medr	Bob diwrnod	24 awr
Y Maes i'r de o ffordd drwodd di-ddosbarth ar ochr ddeheuol o'r Maes o bwynt 10 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd gyda Ffordd Allt y Castell am bellter o 42 metr i gyfeiriad de dwyreiniol	5	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob diwrnod	5 yh -9yb

**ATODLEN 4:ARHOSFA BWS**

Rhan o'r ffordd	Safle lle caniateir i'r bysiau aros	Dyddiau gweithredu	Oriau gweithredu	Cyfnod aros hwyaf
Y Maes i'r de o ffordd drwodd di-ddosbarth ar ochr ddeheuol o'r Maes o bwynt 10 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd gyda Ffordd Allt y Castell am bellter o 42 metr i gyfeiriad de dwyreiniol	Oddi mewn i'r llain sydd wedi ei farcio ar yr wyneb	Bob diwrnod	9yb-5yh	5 munud

**ATODLEN 5:DIM AROS AR UNRHYW ADEG**

Enw'r Ffordd	Hyd
Ffordd Pen Deitch Caernarfon	O bwynt 10 medr i'r gogledd o ganol y gyffordd Tan y Bont hyd at ganol y gyffordd Stryd y Plas ar Ffordd Pen Deitch

**ATODLEN 6 :**

**DIM AROS AC EITHRIO I GERBYDAU YN LLWYTHO A DADLWYTHO A CHERBYDAU HACNI**

Enw'r Ffordd	Safle y caniateir i gerbydau bersonau anabl aros	Dyddiau gweithredu	Oriau gweithredu
Encilfa y tu allan i Ddodrefn Perkins Y Bont Bridd Caernarfon	Cerbydau a ddefnyddir i lwytho neu eu dadlwytho nwyddau  Cerbydau hacni	Bob diwrnod	24 awr

**THE GWYNEDD COUNCIL**  
**(CLEARWAY, NO WAITING AND PARKING AREAS)**  
**(CASTLE SQUARE, BRIDGE STREET AND CASTLE DITCH**  
**CAERNARFON) ORDER 2013**

The Gwynedd Council (“the Council”) in exercise of its powers under Sections 1, 2, 19, 32, 35, 47 and 124 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 and the Traffic Management Act 2004 and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of the Police in accordance with Part 3 of Schedule 9 to the Act hereby make the following Order:

**PART I :DEFINITIONS**

1. This order shall come into operation on the 12th day of April 2013 and may be cited as “The Gwynedd Council (Clearway, No Waiting and Parking Areas) (Castle Square, Bridge Street and Castle Ditch Caernarfon) Order 2013”.
2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings hereby respectively assigned to them:

“Ambulance” has the same meaning as in the Vehicle Excise and Registration Act 1994;

“Bus” has the same meaning as in Regulation 22 of the 2002 Regulations;

“Bus Stop” means any area of carriageway, intended for the waiting by Buses, which is comprised within and indicated by surface treatment and a sign complying with diagram 969 in Schedule 5 to the 2002 Regulations;

“Carriageway” means a way constituting or comprised in a highway being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles, cycles and pedestrians;

“Civil Enforcement Officer” has the meaning defined in Section 76 of the 2004 Act;

“Disabled Person’s Vehicle” has the same meanings as in the Local Authorities’ Traffic Orders (Exemption for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“Disabled Person’s Badge” and “Parking Disc” mean the badge and disc issued by a local authority in accordance with the provisions of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000 or being a badge having effect under these regulation as if it were a Disabled Person’s Badge;

“Driver”, in relation to a vehicle waiting in a Parking Place or on a road or length of road, means the person driving the vehicle at the time if was left in that Parking Place or road or length of road;

“Enactment” means any enactment, whether public general or local, and includes any order, byelaw, rule, regulation, scheme or other instrument having effect by virtue of an Enactment and any reference in this Order to any Enactment shall be construed as a reference to that Enactment as amended, applied, consolidated, re-enacted by or as having effect by virtue of any subsequent Enactment;

“Goods” means goods or burden of any description and includes postal packets of any description;

“Goods Vehicle” mean a motor vehicle which is constructed or adapted for use for the carriage of Goods and which does not exceed 5.30 metres in length or 2.25 metres in width;

“Hackney Carriage” means a vehicle licensed under Section 38 of the Vehicle (Excise) Act, 1971;

“Immobilisation Device” has the same meaning as in Section 104(9) of the 1984 Act;

“Market” means the market which takes place on the Market Area on those days which are observed as Market days by the Council.

“Market Area” means those parts of the Square, as shown on the Plan, upon which the Market takes place.

“Motor Cycle” and “Invalid Carriage” have the same meanings as in Section 136 of the Act of 1984;

“Motor Vehicle” has the same meaning as in Section 136 of the Act of 1984;

“Owner”, in relation to a vehicle means the person by whom the vehicle is kept. In determining who was the Owner of the vehicle at anytime it shall be presumed that the Owner was the person in whose name the vehicle was at that time registered under the Vehicle Excise and Registration Act 1994;

“Parking Place” means any Parking Place indicated by surface treatment and signage (or as otherwise described in this Order) in accordance with the 2002 Regulations;

“Penalty Charge” means a charge as stated in Article 34 of this Order as amended from time to time in compliance with the provisions of Section 78 of the 2004 Act and the 2008 Guidelines;

“Penalty Charge Notice” or “PCN” means a notice issued or served by a Civil Enforcement Officer pursuant to the provisions of Section 78 of the 2004 Act;

“Plan” means the plans attached to this Order and numbered BY 50, BX 50 and BX 49;

“Relevant Position” in respect of:

(a) a Disabled Person’s Badge, means

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that Part 1 of the badge is legible from the outside of the vehicle;  
or

